Sesiynau Cymorthfeydd Caffael

Gwneud gwell defnydd o adnoddau

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

- **Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod pwysigrwydd cael mynediad at ddewis o gyflenwyr amrywiol ac o safon - gan wybod bod cyflenwyr a chyflenwyr posibl yn hanfodol i unrhyw waith caffael. Heb gyflenwyr addas, ni allem fasnachu'n effeithiol ac yn effeithlon.**
- **Nod yr Uned Caffael Corfforaethol yw bod yn allweddol o ran creu amrywiol fentrau sy'n fodd i'r Awdurdod fynd ati i gysylltu'n gynnar â chyflenwyr presennol a phosibl yn y farchnad ac un fenter o'r fath yw'r Fenter Cymorthfeydd Caffael.**

Y Diben

- Bod yn fan cyswllt cyntaf ac yn gyswllt caffael ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig eu Maint, Cyrff Trydydd Sector a Grwpiau Lleiafrifol lleol.
- Rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol ynghylch materion yn ymwneud â chaffael.
- Cael gwell dealltwriaeth o anghenion busnes y naill ochr a'r llall, drwy siarad â chyflenwyr, gwrando arnynt a'u deall, gan gydnabod mai dyna sy'n creu cysylltiadau busnes llwyddiannus.
- Nodi amrywiol ddulliau o hysbysebu cyfleoedd am gontractau sydd ar ddod yn y Cyngor.
- Nodi cysylltiadau yn yr Awdurdod a chysylltu â nhw ar ran y cyflenwr – gan ddod â phrynwyr a gwerthwyr posibl ynghyd.
- Rhybuddio cyflenwyr am ofynion contract penodol a sylfaenol, lle bo'n briodol.
- Casglu adborth gwerthfawr ynghylch ein gwaith caffael er mwyn parhau i wella ein gwasanaeth.

Fformat

- Trafodaeth anffurfiol â Swyddogion Caffael o'r Awdurdod mewn lleoliad ac ar amser sy'n gyfleus ledled Sir Gaerfyrddin.
- Awyrgylch hamddenol lle gall cyflenwyr posibl gyflwyno eu nwyddau neu eu gwasanaethau fel y dymunant.
- Mae trefn gwneud apwyntiad ar waith i sicrhau bod y diwrnod yn mynd rhagddo'n hwylus.

Cymorthfeydd Caffael Cyffredinol

- Ceisio denu pob math o fusnesau a chyflenwyr sydd o'r farn bod cyfle i fasnachu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.
- Amserlen sesiynau - yn amodol ar y galw.

Cymorthfeydd Caffael ar gyfer Sectorau Penodol

- Ceisio denu cyflenwyr posibl mewn perthynas â chontractau neu dendrau penodol sydd ar ddod.
- Rhaglen sy'n fodd i gysylltu â chyflenwyr mewn digon o bryd cyn cyhoeddi hysbyseb ar gyfer contract neu dendr penodol.

Hysbysebu Cymorthfeydd Caffael

Mae cymorthfeydd caffael cyffredinol a chymorthfeydd caffael ar gyfer sectorau penodol yn cael eu hysbysebu fel a ganlyn:

- Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin…www.sirgar.gov.uk
- Gwefan GwerthwchiGymru...www.sell2wales.co.uk
- Lleoedd priodol eraill...fel bo angen.

Wrth gwrs, mae llawer o gyflenwyr yn cystadlu am yr hawl i gyflawni gwaith a chontractau i ddarparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Ni allwn addo llwyddiant i gwmnïoedd unigol.

Fodd bynnag, ein nod yw rhoi digon o wybodaeth fel bod modd i fusnesau gystadlu am unrhyw gyfleoedd sy'n codi a hyrwyddo system deg ar gyfer yr holl gyflenwyr posibl.

Fl gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu apwyntiad, cysylltwch â:

Kim Baker
Uwch-swyddog Caffael

Ffôn: 01267 246241
E-bost: kbaker@sirgar.gov.uk

100% wedi'i ailgylchu
Argraffwyd ar bapur mae 100% ohono wedi'i ailgylchu